| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **20fed Ionawr, 2016** |
| **PENNAWD** | **BIL LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) DRAFFT – YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU** |
| **AWDUR** | **IWAN G D EVANS, SWYDDOG MONITRO** |

**Cefndir**

1. Yng Ngorffennaf, 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur gwyn Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni – Diwigio Llywodraeth Leol"a oedd yn datgan bwriad y Llywodraeth i gyflwyno deddfwriaeth er darparu ar gyfer diwygio llywodraeth leol. Cyhoeddwyd dau bapur gwyn pellach yn Hydref, 2014 a Chwefror 2015 yn datblygu'r cynigion yma'n bellach. Mabwysiadwyd y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) cyntaf gan y Cynulliad ar yr 20fed o Hydref, 2015 a oedd yn caniatáu i baratoadau gael eu gwneud ar gyfer rhaglen o uno a diwygio llywodraeth leol.

**<u>Ymgynghoriad</u>**

2. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn ymgynghori ar ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru). Mae'r Bil yn cynnig diwygiadau sylfaenol i lywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r agwedd allweddol o'r Bil ynglŷn ag ad-drefnu awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae hefyd yn cynnwys ystod o ddarpariaethau statudol eraill sydd ynglŷn â llywodraethu cynghorau sirol a chymuned.

Rhan 1 Ardaloedd Llywodraeth Leol a Chynghorau Sir
Rhan 2 Pŵer cymhwysedd cyffredinol.
Rhan 3 Hybu mynediad i lywodraeth leol.
Rhan 4 Swyddogaethau Cynghorau Sir a'u haelodau
Rhan 5 Cynghorau Sir: Llywodraethu yn well.
Rhan 6 Cynghorau Cymuned.
Rhan 7 Materion y gweithlu.

Bwriad yr ymgynghoriad yw darparu cyfle i wneud sylwadau ar y darpariaethau fydd yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru wedi etholiadau Mai 2016. Y terfyn ar gyfer ymateb yw'r 15fed o Chwefror, 2016.

3. Mae Rhan 4 o'r bil yn cynnig dyletswyddau statudol ar aelodau o'r darpar gynghorau sirol newydd sydd ynglŷn â pherfformiad eu swyddogaethau. Byddai ddyletswydd statudol yn cael ei roi i aelodau fynychu cyfarfodydd, cynnal 'surgeries' ward rheolaidd, ateb gohebiaeth, cwblhau cyrsiau

hyfforddiant mandadol a chyhoeddi adroddiad blynyddol.  Byddai disgwyl i arweinyddion  grwpiau gwleidyddol gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau eu grŵp.

4. Byddai pwyllgorau safonau yn derbyn swyddogaethau newydd i ymdrin â chwynion fod aelodau wedi torri’r dyletswyddau statudol a osodir arnynt ac i fonitro cydymffurfiaeth arweinyddion y grwpiau gyda’u dyletswyddau  a chynghori a threfnu hyfforddiant perthnasol.  Gan ddal sylw at rôl ehangach y pwyllgor safonau - byddai dyletswydd statudol ar y pwyllgor i ddarparu adroddiad blynyddol i’r Cyngor yn disgrifio sut y mae wedi gweithredu’r swyddogaethau yn ystod y flwyddyn.

5. Mae’r weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion am fethiant honedig gan gynghorydd i gydymffurfio a’r dyletswyddau a osodir yn cael ei adrodd yn Rhan 4 - Pennod 3 o’r Bil drafft.  Mae’r weithdrefn yn disgwyl fod y Swyddog Monitro yn cyfeirio mater i gadeirydd y Pwyllgor Safonau.  Os yw’r Swyddog Monitro a’r cadeirydd yn ystyried na ddylai mater gael ei ymchwilio ni all ymchwiliad gymryd lle.  Os yw naill a’i y Swyddog Monitro neu'r cadeirydd yn ystyried y dylai’r mater gael ei ymchwilio mae rhaid i’r Swyddog Monitro ei ymchwilio.  Wedi cwblhau ymchwiliad mae’n rhaid i’r Swyddog Monitro ddarparu adroddiad o’r ymchwiliad i’r Pwyllgor Safonau.  Mae swyddogaethau’r Pwyllgor Safonau a’r camau gall gymryd os yw cynghorydd wedi torri’r ddyletswydd yn cael eu nodi.

6. Mae Rhan 4 o’r Bil drafft wedi ei atodi yn **Atodiad (a)**.  Gwahoddir aelodau i ddarparu sylwadau ar ddarpariaethau Rhan 4 o’r Bil cyn belled â’u bod yn ymwneud a swyddogaeth y Pwyllgor (presennol neu yn y dyfodol).  Cynghori’r aelodau fod ymateb corfforaethol i’r Bil yn cael ei baratoi ar gyfer ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**ARGYMHELLIAD**

Darparu sylwadau ar Ran 4 o’r Bil cyn belled eu bod yn ymwneud a swyddogaethau’r pwyllgor i’w ystyried fel rhan o baratoi ymateb corfforaethol i’r Bil.

**ATODIAD**

Drafft Bil Llywodraeth Leol (Cymru), Rhan 4

Dogfennau Cefndir
Dogfenau Ymgynghori, Drafft Bil Llywodraeth Leol (Cymru)